

# ADRODDIAD EFFAITH

## LLAIS GWENT

Mae'r adroddiad hwn yn tracio ein cynnydd chwarter 1 (Ebrill 2024 - Mehefin 2024) ar ymrwymïadau ein cynllun blynyddol:

759

Fe wnaethom ymgysylltu â 759 o unigolion ar draws cymunedau amrywiol o fewn ôl troed Gwent. Dyma ddadansoddiad o nifer y bobl y buom yn siarad â nhw ym mhob bwrdeistref:

67

BLAENAU  
GWENT

150

CAERFFILI

56

SIR FYNWY

166

CASNEWYDD

320

TORFAEN

31



Fe wnaethom ymgysylltu â 31 o bartnerïaid a mynychu mannau cymunedol, ysbytai, grwpiau cymorth a digwyddiadau lleol i gryfhau llais y gymuned.

### Themâu sy'n Dod i'r Amlwg:

- Mynediad at Feddygon Teulu
- Mynediad i Ddeintyddion GIG ar gyfer oedolion a phlant
- Mynediad i Wasanaethau Iechyd Meddwl gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
- Gwasanaethau Mamolaeth
- Rhyddhau o ysbytai

### Ymweliadau

Gwnaethom ymweld â chartref gofal yng Nghasnewydd i gael gwell dealltwriaeth o'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl.



Gwnaethom siarad â 138 o bobl ifanc a ddywedodd wrthym am eu profiadau o gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

138



### Profiadau pobl:

"Mae pobl ifanc niwroamrywiol sy'n cael eu cefnogi drwy'r gwasanaeth (meddyg teulu) yn gweld bod y defnydd uchel o apwyntiadau ffôn yn effeithio ar y teimladau o bryder sydd eisoes yn uchel ac yn ei chael hi'n anodd bod yn agored oherwydd diffyg apwyntiadau wyneb yn wyneb"

"Dydw i ddim wedi gweld deintydd ers i mi fod yn 16! Rwy'n 24 nawr. Nid wyf wedi gweld un ers hynny oherwydd ni allaf gofrestru gyda deintydd y GIG ac ni allaf fforddio talu'n breifat!"

Dydw i ddim yn gwybod pwy yw ein hymwelydd iechyd – neu os oes gennym ni un hyd yn oed. Roedd yr un a gawsom adeg genedigaeth wedi gadael pan oedd fy mabi yn 3 mis oed ac ni ddarparwyd un arall"

### Llais Lleol

Aethom i Gaffi Parkinson's Lleol yn Sir Fynwy i siarad â phobl am eu mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol. Dywedodd pobl y canlynol wrthym:

- Nid yw staff y GIG/Ambiwlans yn edrych y tu hwnt i Parkinson's pan fydd salwch aciwt yn dod i'r amlwg
- Mae diffyg gofal cydlynol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol
- Ychydig iawn o ofal cyfannol sydd.
- Nid oes gan ofalwyr ymwybyddiaeth o gymorth gofal cymdeithasol, yr hyn sydd ar gael iddynt a sut y gallant gael gafael arno
- Gall mynediad at gymhorthion symudedd "fod yn anodd weithiau"
- Codwyd materion parhad gofal. Er enghraifft, peidio â gweld yr ymgynghorydd arbenigol ar ôl diagnosis



## Prosiect:



# Llawdriniaeth wedi'i chynllunio ar gyfer y glun a'r pen-glin

IYm mis Ebrill 2024, daeth ein prosiect Trawma ac Orthopedig i ben. Dywedodd pobl wrthym am eu profiad o aros am lawdriniaeth glun neu ben-glin arfaethedig:

**48** Cymerodd 48 o bobl amser i rannu eu profiadau.

**22** Roedd 22 o bobl yn aros rhwng 1 a 2 flynedd am eu llawdriniaeth.

**20** Roedd 20 o bobl yn aros rhwng 3 a 4 blynedd am eu llawdriniaeth.

**38** Dywedodd 38 o bobl fod yr aros hir am lawdriniaeth yn effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u lles.



"Isel iawn oherwydd fy mod i bob amser mewn poen - gwaethygu a dim diwedd yn y golwg"

"Dim mwy o deithiau cerdded gyda fy ngwraig, treulio mwy o amser dan do"

"Rhaid i mi ddibynnu ar deulu am brydau a chawodydd"

## Dywedasoeh chi, gwnaethom ni..

Yn seiliedig ar yr adborth a gawsom, rydym wedi cyflwyno sylwadau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r Bwrdd Iechyd yn awyddus i weithio gyda ni i sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed a bod gwelliannau ystyrlon yn cael eu gwneud, lle bo angen.

Gwnaethom saith gynrychioliadau yn ystod y cyfnod hwn.



**7** Fe'n hysbyswyd o saith newid gwasanaeth mewn gwasanaethau gofal iechyd.



Cawsom 87 o geisiadau am gymorth drwy ein Tîm Eiriolaeth, sy'n helpu i wneud cwynion pan fydd pethau'n mynd o chwith ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

**87**



Mae 32 gwirfoddolwr yn gwrando'n astud ar bobl mewn cymunedau, tra hefyd yn cynrychioli Llais.

**32**

## Ôl Troed Gofal Cymdeithasol

Rydym yn cryfhau ein presenoldeb gofal cymdeithasol trwy feithrin ac ehangu ein perthnasoedd



## Felly Beth?

Gan ddefnyddio'r hyn a ddywedodd pobl wrthym a'n gwybodaeth o'n tueddiadau eiriolaeth, byddwn yn cynllunio prosiectau ar gyfer y dyfodol yn chwarter 2 (Gorffennaf - Medi) ar y canlynol:

### Rhyddhau o'r Ysbyty:

Datblygu arolwg effaith sy'n canolbwyntio ar brofiadau pobl o gael eu rhyddhau i'r gymuned.

### Mamolaeth:

Cynyddu ein dealltwriaeth o'r hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym am wasanaethau Mamolaeth yng Ngwent.

### Llais Pobl Ifanc:

yddwn yn gweithio gyda phobl ifanc i ddeall eu profiadau o newid o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn atal pobl ifanc rhag "syrthio drwy'r rhwyd"

### Profiadau yn yr Adran Achosion Brys (AB) a'r Uned Asesu Meddygol (UAM)

Byddwn yn creu prosiect i ddeall profiadau pobl o gael mynediad at ofal yn ein AB a'n UAMau lleol